Cynhaliwyd cyfarfod ar 20fed o Dachwedd 2024 am 7.30

Yn bresennol oedd Eryl Evans, Arwyn Ellis, Helen Jones (cadeirydd) cafwyd ymddiheuriadau gan Generys Roberts ac cyng Gwennol Ellis.

Dywedodd y clerc ei bod yn datgan diddordeb ir anfoneb a ddaeth oddi wrth J Humphreys and Co.

Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe u harwyddwyd fel rhai cywir.

Gohebiaeth

Ambiwlans Awyr llythyr yn gofyn am gyfraniad - - nodwyd ein bod yn cyfrannu arian y Tan Gwyllt ac raffl y swper henod.

Nan Owen - llythyr diolch am ein cyfraniad tuag at gostau bws iw taith pererindod.

Cyngor B Sirol Conwy – anfoneb am gynllun chwarae yr haf 2024 - £200.00 pasiwyd ei adael am y tro.

Cyngor B Sirol Conwy – llythyr yn gofyn am gyfraniad i gynllun chwarae yr haf 2025. Pasiwyd ei adael tan y cyfarfod nesaf.

Llywodraeth Cymru llythyr yn nodi hawlfraint gwariant at ddibenion nad oes gan y Cyngor bwer penodol ar eu cyfer £10.81 fesul etholwr.

Cyngor B Sirol Conwy – arian grant UKSPF astudiaeth dichnoldeb y taliad olaf £1,987.47.

Ffioedd clad - £100 y diweddar Fredrick Morgan.

Tan gwyllt – Casglwyd £135.00 ar y noson elw Ambiwlans Awyr.

Heirio Festri i gyfarfodydd - £15.00 x 7 = £105.00

Coeden Dolig - pasiwyd gofyn i Llyr gael coeden ac mae Dewi a Haf yn garedig yn cyflenwi y trydan.

Fferm wynt Bodtegir - wedi derbyn grant tuag y Tan Gwyllt sef £324.00.

Adroddiad Cyng Gwennol - yn absenoldeb Gwennol nodwyd ganddi bod Cartrefi Conwy yn methu cael tenantiaid ir tai sydd yn wag o amgylch Uwchaled ac mwy na thebyg byddant yn cael ei gwerthu- nodwyd gan y cynghhorwyr ei bod yn bwysig bod y anneddau yn cael ei hysbysebu yn lleol er mwyn i bod lleol fod yn ymwybodol bod tai ar werth.

Cafwyd cyfarfod gyda aelod or Cyngor Sir ynglyn a diweddariad ar Bont y Crown yn y dafarn y Goron gyda cynyrchiolaeth dda wedi troi allan gyda ei pryderon ai cwestiynnau nid oes dim wedi dod nol ar hyn o bryd.

J Humphreys and C0 - cafwyd anfoneb am wneud y gwaith ail wynebu cae peldroed - paswiyd iw dalu £5,400.00. (arian grant Brenig)